DWY O

GERDDI

NEWYDDION

1. Yn dangos fel y darfu i Frenin yn RHUFAIN, drwy ragluniaeth Duw: gael i gadw y Ngharchar un Dŷdd a blwyddyn; a llaeth bronne i Ferch.

11, Ynghylch Gwraîg ai Mâb ai Merch, ai Hwŷres: mewn digwyddiad rhyfeddol, anarferol di gyffredin!

TREFRIW

Argraffwyd gan D. Jones tros J. J. 1778.

GWLEDD ANGHARAD

Gwrandewch ar hynod hanes a gefais i
mi dreetha i chwi. am un o Arglwydd i
Pênna o *Rufain* brafia ei bri
Am ddigio'r *Emprwr* yno, câdd ŵŷro
Ei wawr i gyſtudd mawr, ai daflu î
Garchar oerddu ai rwymo i lynu i lawr
A chloi i draed ai ddwylo
Rhoî heyrn arno i drigo draw
Yn wael ſwm mewn llettu llwm
Dan brudd-der trwm a brâw
Roedd yno gyfraîth galed
Na chae ſo dameed Nôs na Dŷdd
Na dim or dŵr bŷd ſal yn ſiwr
Ond profi cyflwr prudd !

2

Ar *Emprwr* yno a archc, os dae un Dŷn
I weld ei lun, a dim drwy'r Bŷd îw'
Borthi, y mynne loſgi ei lun
Bu yno dras 10 Diwrnod, mewn gwaelod
Gwae, dim bwyd ni chae, nes ydoedd ar
Newynu, a fferu ar lawr y ffae !
Ag yno gwaeddodd allan
Yn doſt mewn griddfan ac oer grî
Ryw ymborth llawn, o Dduw ai ddawn
Rhag newynu na chawn i
Och och ! na chawn friwſionyn
Rhag marw o eiſiau yma 'n awr

Mewn carchar dû heb dân na Thŷ
Rwy fi ar lewygu i lawr!

3

'roedd ganddo 3 a ferched, rai canaid call
Yn byw'n ddi ball, gan ddwy'r oedd
Myrdd o bower, dim llownder gan yllall
A honno oedd iw amheleſio,
Am fatſio i fyw, heb olud gwiw
Ni roeſe ddim Cynhyſgaeth.
Ir Eneth glan o ryw
Naccaeſe roddi bendith
Na dim mewn unrhith i hon iw rhan
Na Thŷ na Thir, na goleu Clir
Ond ei gâdo 'n wir yn wan:
I Dai 'r ddwy oedd yn ei mawradd
Am help yn fwynedd gyrrai fô
Dim lles ni wnaen, at hwn nid aen
Yn egwan diuan drô

4

Ond gyrrai 'r hynaf gyllell, i gymell
Gwŷn, iw lâdd ei hûno Ar all a ŷrrai
Gortyn hyll erwin oedd ei llun
I beri iddo ymdagu, i ddibennu o'r byd
Yn hynny o bryd, yn llê bod yno
Iw blinô ai hurtio hŵy o hyd
Ar ferch dlawd a glwodd
Ar frys y rhedodd atto'n rhwydd
Rhoe i glinie i lawr, ir *Emprwr* maw-

Cyſonfawr oedd ei ſwydd
I ſegio mynd ir Carchar
Mewn Jaith hygar at ei Thâd
I gael ar gô i fendith fô
Oedd yno'n brifo îr brâd

5

Yr *Emprwr* parai chwilio, i dreio
Ar drael ŷ wraig oedd wael, rhag bod
Ganddi ymborth,
Yn gymorth iddo iw gael,
Ar *ſieler* yno ai chwiliodd, ni chafddd
chwaith fniwſionun maith o fwyd na diod
Ganddî: iw berthi gwedi ir gwaith
Ar ol hyn hi gae fynd atto; cadd fendith
Ganddo rhwydd-dro rhâd
Wrth i weled fê, mor wael ai lê
Maith wyle uwch ben ei Thad
Oedd ŵedî mynd cyn ſaled
Gan meŵyn ſyched galedgur
Hi ai cododd ô' ar ei draed ar drô
Drwy i helpio i ymwino ar mûr

6

Eî Thâd a ddwedodd wrthi,
Daeth cledi clir, im torri or tîr
Gan newyn mawr ſy'm blino
Câf huno cyn pen hir
Ac yna dweude i eneth yn lluniaeth llon

Cewch Laeth fy mron, rhag i chwi lwyr
ddepartio gwnewch ſugno heno hon
Geill Duw drwy hwn eich porthi
Ach llwyr ddigoni gynnydd gwiw
Yn y Carchar dû yn y dwnſiwn dû
Eich dal i fynu i fyw
Ar ol caffael llaeth ei bronne
Fo ymddadfywie modde mawr
Am dano fe i Frenin Ne
Diolche ar linie i lawr

6

Hi gafodd ar ol chwilio, ddw'd attô'r
Dŷdd, mewn rhydit rhŷdd, iw borthi a
Llaeth i dwyfron,
Drwy gyfion ffyddlon ffŷdd
A hyn dros flwyddyn hynod a Diwrnod
Dwys, y bu dan bŵys, hi ai dal ei fynu'n
Fwynedd rhag mynd ir gaufedd gwŷs
'Mhen hyn bu farw 'r Emprwr
Oedd iddo'n fradwr drwg ei frâd
Ai rhoe ô'n hû, mewn Carchâr dû
I lwyr derfynu ei Fŷd
Ar Arglwydd drwy ragluniaeth
Gadd ddwad eil waith i hên Dŷ
Ac a roes ei ſerch ar ei anwyl ferch
Yn fwyn ferch iddo a fu

8

Fo yſbeiliodd y ddwy hyna, oi mowrddà

Maith, do am ei gwaith, rhoe'r cwbl oll
Ir Iengâ, Am ei mwyndra tecca taith
Hi gafodd bob anrhydedd un lariedd lor
Fo harddod hon, ai portha fo'n ddigono
A breîniol laeth ei bron
Edifeirwch mŵya oedd ganddo
Erioed ddîgio wrth honno o hyd
Fe hoffodd ryw, y lân ei lliw
Tra bu fo byw'n y hyd
Weldyna'r hanes Cywir
Môdd ei Darllenir y mhob lle
Pwy ferche un prŷd mo bethe'r
Byd, yn unfryd dan y Nê

E; Roberts ai Cant;

Ar Dôn Fechan

DOWCH yn nes bob Dyn a dynes
I glywed hynod hyn o hanes
Am wraig oedd weddw ai mab ai morwyn
Ag fel y mae'r 'Stori 'n calyn

I roedd y wraig mewn ofn a dychryn

O fod ei mab yn caru'r Forwyn
I gael gwybod a oedd hynny
I welu'r llangces aeth î gyſgu
Ar Llangc hwn yn ôl ei arfer
Aeth îw welu wedi Swpper
Yn ol defod y rhaî prîodol
Fo wnaeth weithred oedd arythrol!
Celu wnaeth y wraig y weithred
Oddi wrth d Bŷd a phawb ar Aned
A rhoi or plentyn wedi hynny
Y mhell o d'r i gael ei fagu
Y mhen enyd o flynydde
Cyrchu wnaeth ei geneth adre
Gan ei chymeryd fel gweinidog
Drwy addo iddi ſwyd a chyflog
Ond mab y Tŷ a roes ei ffanſi
Ar y Lodas hono wedi:
Ac ai mynnodd drwy awdurdod
Yn ddi-ffael eî chael yn briôd
Y wraig ai Mâb ai Merch ar gyhoedd
A fu enyd o flynyddoedd
Yn byw'n gariadus bur garedig
Gu fwyn addas gwiw fonheddig
Yr hen wraig a ddârfu alw,
Ar y ddau cyn iddi farw:
Gan ddwedyd iddynt y gwirioned
Fel y bu oi ddechre iw diwedd. !

Ti yw fy Mâb i er fy mebyd
Ath Dithe yn ferch ac wyres hefyd!
Yn ferch yn Chaer yn wraig ar unwaith
Fal dyna heb oedi bur wybodaeth

Wel dyma helynt anarferol
A fu'n awyddus ac anweddol:
Nid oes nn ddamwain yn digwyddo
Heb i dyner Dduw ordeinio.

Ni bu'r fath beth er amser Adda
Y 'myſc dynion y Bŷd yma
Pan oedd Adda ai blant oi gwmpas
Brawd a chwaer oedd mewn priodas

Duw fo'n madde i bawb ei gamwedd
Oi ddechreuad hyd ei ddiwedd
Ac ar hyn yr wyf yn darfod
Hyn o hanes yma'n hynod

Dewi Fardd.

DIWEDD.